

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Gorffennaf  
17deg 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 17<sup>th</sup> July  
2019 at 7.30pm**

**1. Presennol/Present** - Cyngorwyr Barbara Williams (Cadeirydd/Chairperson), Myrddin Roberts, Rhian Hughes, Maldwyn Williams, Hanna Elin Baguley, Geraint Parry (Clerc/Clerk) a Carwyn Jones

**2. Ymddiheuriadau/Apologies** - Cyng. Alun Roberts

**3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest**

3.1 Cyng. R Hughes yn datgan diddordeb sydd ddim yn rhagfarn ar eitem 8 / *Clr. R Hughes declared an interest on item 8 that is not prejudicial.*

**4. Cofnodion/Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 fed o Mehefin fel rhai cywir gan Maldwyn Williams, eiliwyd gan Rhian Hughes / *Minutes of the previous meeting held on 19<sup>th</sup> June were accepted as accurate by Maldwyn Williams, seconded by Rhian Hughes.*

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

5.1 Chalet - dim gwybodaeth pellach / *No further information*

5.2 Ysgol Biwmares - dywedodd Cyng. C Jones nid oedd unrhyw diweddariad. Ysgol Llandegfan yn llawn. Pennaeth addysg newydd i ddechrau mis Medi. / *Beaumaris School - Clr. C Jones stated that there was no update. Llandegfan School is full. New Head of Education to start in September*

5.3 Lôn Hafoty - ni dderbyniwyd ymateb gan Pennaeth Priffyrdd i fynychu ein cyfarfod. Cyng. C Jones i ddilyn i fyny ar y mater hwn / *no response has been received from the Head of Highways to attend our meeting. Clr. C Jones to follow up on this matter.*

5.4 Llinell trydan o dan y ddaear yn Tyn Llain - ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach gan SP Energy. Clerc i ddilyn i fyny / *Underground line at Tyn Llain - no further information received from sp Energy. Clerk to follow up*

5.5 Adroddiad Blynyddol IRPW - taliad i aelodau, atgofiodd y Clerc y Cyngorwyr o'r angen i benderfynu derbyn neu wrthod y taliad / *Annual IRPW Report - payment to Councillors, Clerk reminded Councillors of the need to decide to accept or reject the payment.*

5.6 Cafwyd trafodaeth bellach er mwyn llenwi'r 3 sedd wag yn ward Llanddona. Eglurodd y Clerc bod 3 pherson wedi dangos diddordeb. Gan nad oes cyfarfod ym mis Awst, Clerc yn cysylltu â'r ymgeiswyr i esbonio y bydd ein cyfarfod nesaf ym mis Medi. / *Further discussion took place in order to fill the vacant 3 seats in the Llanddona ward. Clerk explained that 3 persons have shown interest. As there is no August meeting, Clerk to contact the applicants to explain that our next meeting will be in September.*

5.7 Yn dilyn pwynt blaenorol a godwyd er mwyn cael gwybodaeth am grantiau lleol, penderfynwyd gofyn i Helen Able fynychu ein cyfarfod nesaf er mwyn trafod ceisiadau am grant / *Following a previous point raised in order to gain information on local grants, it was resolved to ask Helen Able to attend our next meeting in order to discuss grant applications.*

5.8 Cyflwr llwybyr troed ger Penhwnllys Plas - Clerc wedi trefnu i cael ei dorri / *Condition of footpath by Penhwnllys Plas - Clerk has arranged for the path to be cut.*

**6. Adroddiad gan y Cyngorwr Sir /Report by the County Councillor**

6.1 Taith Feicio Cymunedol wedi'i threfnu ar gyfer 20/07, gan gychwyn o'r Green yng Biwmares / *Community Bike Ride arranged for 20/07, starting off from the Green at Beaumaris*

6.2 Mae Prif Weithredwr y Cyngor Sir wedi penderfynu ymddeol ym mis Hydref / *Chief Executive of the County Council has decided to retire in October.*

6.3 Mynychodd gynhadledd yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, lle datgelwyd bod cronfa ail-gynhyrchu gwerth hanner miliwn ar gael i'r Ynys. Hefyd mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau sy'n adnewyddu hen safleoedd. Nodwyd hefyd bod gan Hitchai diddordeb o hyd ar safle Wylfa a bod phenderfyniad i aildechrau'r prosiect i'w gynnal yn y ddwy flynedd nesaf / *Attended a conference of the Nuclear Decommissioning Authority, where it was revealed that there is a half million pound re-generation fund available for the Island. Also funding is available for projects that refurbish old sites. It was also noted that Hitchai still has an interest in the Wylfa site and a decision to re-start the project is to be carried out in the next two years.*

- 6.4 Dywedwyd bod cyfanswm o 38 o longau mordeithio yn bwriadu ymweld â'r Ynys yn ystod y tymor. Gofynnodd aelod, faint o gefnogaeth mae'r Cyngor Sir yn ei roi i'r busnes hwn? / *It was stated that a total of 38 cruise ships plan to visit the Island during the season. A member asked, how much support does the County Council give to this business?*
- 6.5 Gemau'r Ynysoedd 2025 – Ynys Môn yw'r cynigydd dewisol o hyd. Mae angen llawer o arian i gynnal digwyddiad yma ac nid yw'r Llywodraeth Cymru yn cynnig fawr ddim / *Island Games 2025 – Anglesey are still the preferred bidder. A lot of funding is required to hold this event and the Welsh Government are offering very little.*

## **7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 7.1 HHP2019/162 Craig y Brenin, Llanddona – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - ystyrir bod y safle yn ddigon mawr ac felly nid oes angen adeiladu'r llawr uchod a fydd yn effeithio ar y trigolion cyfagos./ *Full application for alterations and extensions - it is considered that the site is large enough and therefore there is no need to build the floor above which will affect the nearby residents.*

### **Er Gwybodaeth / For Information**

- 7.2 HHP/2019/138 - Cherry Tree Cottage, Llanddona - cais llawn ar ehangu'r modurdy – cais wedi'i caniatáu gyda amodau / *Full application for the extension to the garage – application has been granted with conditions.*

## **8. Hen Ysgol / Old School**

- 8.1 Trafodwyd a chymeradwywyd y telerau ac amodau ar gyfer defnyddio'r Hen Ysgol fel ystafell gyfarfod fisol. Y Clerc i lofnodi a dychwelyd y gymeradwyaeth i'r trefnydd / *The terms and conditions for the use of the Old school as a monthly meeting room was discussed and approved. Clerk to sign and return the approval to the organiser.*
- 8.2 Ystyriwyd bod y Diwrnod Agored ar y 13/07 yn llwyddiant gyda chynifer â 200+ o bobl leol yn bresennol. Cofnodwyd y digwyddiad hefyd gan gwmni teledu / *The Open day on the 13/07 was seen as a success with as many as 200+ local people and officials in attendance. The event was also recorded by a television company.*
- 8.3 Y Clerc i anfon llythyr yn diolch i bwyllgor y Capel am ddefnyddio'r ystafell gefn cefn ar gyfer ein cyfarfodydd misol / *Clerk to send a letter a thanks to the Chapel committee for the use of the rear room for our monthly meetings.*
- 8.4 Dal i ddisgwyl am yr arwyddion gael eu codi / *Still awaiting for the signs to be erected*

## **9. Tir Comin / Common Land**

- 9.1 Cais am hawddfrait Brookfield – Y Clerc i hysbysebu cais hawddfrait / *Application for easement – Clerk to advertise the easement request*
- 9.2 Ffos ar dir comin y Rhos – CNC i sefydlu pwy oedd yn gyfrifol am y difrod ac archwilio rheolaeth y ffos hon yn y dyfodol / *NRW to establish who was responsible for the damage and explore future management of this ditch.*
- 9.3 Hawddfrait ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben – mae'r Clerc wedi cysylltu a CNC, disgwyl am ymateb / *Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben – Clerk has contacted NRW, awaiting response.*
- 9.4 Map o dir comin - Clerc i holi ymhellach a allwn ei gosod ar ein gwefan / *Map of Common land - Clerk to further inquire if we can place it on our website*
- 9.5 Adroddodd yr aelodau ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15/07 gyda Cwlwm Seiriol i drafod y Cynllun Rheoli newydd ar gyfer y warchodfa natur. Gofynnwyd i'r panel gael gwared ar y coed helyg ac o bosibl ailgyflwyno dull o reoli llosgi / *Members reported on the meeting held on the 15/07 with Cwlwm Seiriol to discuss the new management Plan for the nature reserve. The panel were asked to get rid of the willow trees and possibly re-introduce a method of control burning.*
- 9.6 Porth y Dref – mae'r tir wedi'i drosglwyddo'n gywir i'r Cyngor Cymuned / *The land has been correctly transferred to the Community Council*

## **10. Cyfrifon / Accounts**

- 10.1 Anfoneb i'w hystyried / *Invoice to be considered:-*
- Cyfreithiwr / *Solicitor - £84.00*
- 10.2 Clerc yn egluro incwm a gwariant hyd at diwedd Mehefin (Chwarter 1) / *Clerk explained the income and expenditure up to the end of June (Quarter 1)*

## **11. Gohebiaeth/Correspondence**

- Adrodd \ *Report ROSPA*

- Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned / *Community First Responders*
- Port y Dref
- Cyfoeth Naturio Cymru / *NRW – Rhosydd Llanddona*

**12. UFA/AOB:**

- 12.1 Mae'r Sioe Merlod Llanddona wedi ei canslo oherwydd clefyd ceffylau. Sioe nesaf 29/08/2020 / *The Llanddona Pony Show has been cancelled due to the equine disease. Next show will be on 29/08/2020.*
- 12.2 Mynegodd Cynghorydd bryder am y diffyg cefnogaeth gan aelodau o'r Cyngor Cymuned a ddangoswyd yn y digwyddiad codi arian at elusen diweddar a gynhaliwyd ar 6/07/19 yn yr OGD / *A Councillor raised concern about the lack of support from members of the Community Council shown at the recent Charity fundraising event held on 6/07/19 at the OGD*
- 12.3 Oherwydd pryderon lleol, Clerc i wahodd y PCSO i ein cyfarfod nesaf / *Due to concerns, Clerk to invite the local PCSO to our next meeting.*
- 12.4 Cytunwyd i symud yr hysbysfwrdd o'r Hen Neuadd Bentref / *It was agreed to move the notice board from the Old Village Hall*
- 12.5 Penderfynwyd yn unfrydol rhoi rhodd i'r ddigwyddiad codi arian diweddar / *It was unanimously decided to donate to the recent fund raising events*
- 12.6 Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar Ynys Môn – yn dilyn trafodaeth i gynyddu poblogaeth y ward, awgrymwyd y dylai Llanddona ymuno a Llansadwrn / *Review of the Electoral Arrangements on Anglesey - following discussion to increase the population of the ward, it was suggested that Llanddona should join Llansadwrn.*

**13. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 10:05 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 11/09/19 am 7.30 yn yr Hen Ysgol.  
*There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 10:05pm. Next meeting to be held on 11/09/19 at 7.30pm in the Old School.*

Llofnod y Gadeirydd

Dyddiad